WG 35. S 196

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH

## AM MR. WILLIAM THOMAS,

YSTRADGYNLAIS,

YR HWN A FU YN DDIWYD FEL PREGETHWR

YN MHLITH Y

## BEDYDDWYR CALFINAIDD,

Ac yn ddefnyddiol fel Aelod a Blaenor o'r Gymdeithas Iforaidd yn y lle uchod.—Bu farw Tachwedd yr 16eg, 1841, yn 28ain oed. Pregethodd y Parch. D. Davies, Abertawy yn ei angladd, oddiwrth Mat. 14. 12. Yna rhoddwyd ei ran farwol i orwedd wrth Eglwys Beula, Cwmtwrch.

GAN ISAAC HOWELLS, YSTRADGYNLAIS.

*"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."*

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL FAWR.

1842.

X2053163386

## MARWNAD, &c.

1 Marw sydd amgylchiad pwysig,
Daw i'n cwrddyd yn ddiau;
Y mae marw wedi 'maflyd
Yn ein natur briddlyd frau;
Trwy droseddiad cyntaf Adda
Daeth marwolaeth mewn i'r byd,
Fe osodwyd i ni farw,
Ond ni wyddom ddim o'r pryd.

2 Ni ddiangodd rhag y marw
Ddim ond dau o deulu dyn;
Pob annhrefn ddaeth trwy bechod,
Trist yw'n hagwedd bob yr un;
Galarnadau sydd fynychaf,
Wylo'n brudd, nid llawenhau,
Wrth wel'd rhai fu yn ddefnyddiol
'N cael eu rhoddi yn y clai.

3 B'le mae dewrion penaf Cymru,
Ac enwogion Lloegr gu,
Beirdd, datganwyr, a phregethwyr?
Oll dan gloion angau du!
Tra defnyddiol yn eu tymor,
Ac yn ffyddlon yn ddiau;

Ow ! daeth marw i'w cyfarfod,—
Cyd-orweddant yn y clai.

4 B'le mae Carnhuandes* ddoniol,
Fu ddatganwr yn ei ddydd,
Bardd rhagorol, rhaid ei enwi,
A ddiangodd hwn yn rhydd ?
Na ddo, na ddo, trechodd angau
Gelyn natur, cyfaill gras;
WILLIAM THOMAS, Ystradgynials,
Gwympodd hefyd ar y ma's.

5 Dygodd ef yr iau yn ieuanc,
Cofiodd ei Greawdwr gwiw ;
Harddodd hefyd lwybrau crefydd
Tra bu ar y ddae'r yn byw ;
Codai faner goch Calfaria,
D'wedai'n gyson am yr Iawn ;
Hyn oedd ei hyfrydwch beunydd
Yn y boreu a'r prydnawn.

6 D'wedai am y farn ofnadwy
Gyfarfyddai rhai tu fa's,
Ac annogai bawb i dderbyn
Anchwiliadwy olud gras ;
Er fod lluoedd wedi dianc,
Trwy ei rin yn iach i dre',
"Dewch," medd William," peidiwch oedi,
Y mae digon etto o le."

*John Davies, Alltwen.

7 D'wedai wrth y Cristion gwanaf,
Fod yr iechydwriaeth wiw
A digonedd ynddi' farw,
A digonedd ynddi' fyw;
Nad oes raid i deulu Sïon
Fyw mewn tlodi yn y byd,
Bod cyflawnder mawr o haeddiant
Yn yr Aberth gwerthfawr drud.

8 D'wedai ef yn ymyl marw
Nad tywyllwch oedd i gyd,
Er nad oedd yn oleu perffaith
Rhyngddo a'r trag'wyddol fyd:
Ofnau oedd yn curo arno,
A gelynion aml ri',
Ond fe roddai bwys ei enaid
Ar Iawn cyflawn Calfari.

9 Bu'n pregethu am flynyddau;
Yr oedd William yn wr call;
Ond ni chafodd ef ddiangyd
Rhag picellau llym y fall;
Ond 'doedd modd i ddrygu'r bywyd
Er dichellion o bob rhyw,
Yr oedd hwnw wedi guddio
Gyda Iesu Grist yn Nuw.

10 Beth yw angau, William, dywed?
Gwyddost lawer mwy na mi;
Beth yw lled yr afon donog
A pheth ydyw grym ei lli'?

A yw'r meini ynddi'n eirwon,
  A yw'r creigiau'n hyll eu grân?
Pa beth oedd y rhwystr penaf
  Ar dy ffordd i Salem lân?

11 Mi ddych'myga'th fod yn ateb,
  "Calon ddu a llawn o bla,
Oedd y gelyn penaf i mi
  Ar y ffordd i'r hafan dda;
Nid oedd y gelynion ereill
  Er eu hamled, er eu llid,
'N gwneuthur cymmaint niwed i mi
  A fy nghalon ddrwg ei phryd."

12 A oes hiraeth ar ol brodyr
  Yn yr Ystrad, fu'n cyd-fyw,
A Chwmtwrch, oedd gyd-aelodau
  Gyda thi yn Beula wiw?
A oes gynyt gof am briod
  A rhai bychain sydd yn ol?
Neu, anghofiaist ti y cyfan
  Pan daeth cerbyd i dy hol?

13 "Perthynas natur a ddarfyddodd,
  Gwreica 'does, na gwra chwaith,
Cyd stâd ydym â'r angylion
  Yn y trag'wyddoldeb maith;
Tyrfa hardd a siriol ydym,
  Bawb yn ieuanc heb un hen;
Prin y cofiaf ddull y ddaear,
  O dan ddwyfol nefol wên.

14 Nid yw y dych'mygion penaf
Gefais ar y ddaear ddu,
Wrth eu pwyso, mewn cymhariaeth,
Ddim ond megis ysgafn blu ;
Ni fynegwyd i mi'r hanner
Am ogoniant pur y wlad ;
Nofio'r y'm mewn môr o gariad
Ga'wd trwy angau Crist a'i wa'd"


15 Mae'r gymdeithas wiw Iforaidd
Yn galaru ar dy ol,
Cawsant golled, do, dy golli,
Ni ddychweli mwy yn ol ;
Priod tirion, plant ymddifaid,
Brodyr a rhieni sydd
A mawr ofid yn eu mynwes
Pan yn cofio'th fod mewn pridd.

16 Cym'rwch gysur, ei berth'nasau,
Na alerwch mewn modd ffol,
Dysgwch dewi gydag Aaron,
Ni ddychwela mwy yn ol ;
Gwnewch ymddiried yn Nuw William ;
O boed hwn yn Dduw i chwi,
Hyn fo'ch rhan a'ch etifeddiaeth
Cyn wynebu angau du.

17 Dafydd Thomas, ei frawd anwyl,
Glynwch chwithau tra b'och byw
Gyda'r gorchwyl o gyhoeddi
Iesu'n Geidwad dynolryw ;

Darfu William, do, â'i orchwyl,
  Braidd cyn cyrhaedd hanner dydd,
Gobaith sydd am ail gyfarfod,
  A chyfarfod melus fydd.

18 Dyma finnau yn dybenu,
  Duw rho ras i bawb o'r bron ;
Na foed neb yn ol o'i dderbyn
  Oddifewn i'r Ystrad hon ;
Gwŷr Cwmtwrch fo'n meddu sylwedd,
  Boed duwioldeb yno'n ben
Cyn darfyddo dydd eu bywyd,
  Yw nymuniad 'nawr. Amen.



*E. Griffiths, Argraffydd, Heol Fawr, Abertawy.*